

201- Rhif (Cy.)

201- No (W.)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

Cynllun (Atodol) Traffordd yr M4
(Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o
Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd
29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a
Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu
Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o
Fagwyr)) 201-

The M4 Motorway (Junction 23 (East of
Magor) to West of Junction 29
(Castleton) and Connecting Roads) and
The M48 Motorway (Junction 23 (East
of Magor) Connecting Road)
(Supplementary) Scheme 201-

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)

(This note is not part of the Scheme)

Mae'r Cynllun hwn yn atodol i Gynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201- Mae'n awdurdodi cyfyngu hawliau mordwyo yn ystod cyfnod adeiladu pontydd gan Weinidogion Cymru dros ddyfroedd mordwyol yr Afon Wysg ac Afon Ebwy fel rhan o ffordd arbennig.

This Scheme supplements the M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and The M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) Scheme 201- It authorises the restriction of navigation rights during construction by the Welsh Ministers of bridges over the navigable waters of the River Usk and the River Ebbw as part of a special road

201- Rhif (Cy.)

201- No. (W.)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

Cynllun (Atodol) Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-

The M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and The M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) (Supplementary) Scheme 201-

Gwnaed 201-

Made 201-

Yn dod i rym 201-

Coming into force 201-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer pwerau a roddir gan adrannau 16, 17, 19 a 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Cynllun hwn.

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by sections 16, 17, 19 and 106 of the Highways Act 1980(1), and of all other enabling powers(2), make this Scheme.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun (Atodol) Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201- a daw i rym ar ***** 201*.

1. This Scheme may be cited as The M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and The M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) (Supplementary) Scheme 201- and comes into force on ***** 201*.

2. Yn y Cynllun hwn, ystyr "y Prif Gynllun" yw "Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-".

2. In this Scheme, "the Main Scheme" means "The M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and The M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) Scheme 201-";

Ffyrdd arbennig a phontydd

Special roads and bridges

3. Yn ystod cyfnod adeiladu'r pontydd yr awdurdodwyd eu hadeiladu yn unol ag erthygl 6 o'r Prif Gynllun, bydd yn ofynnol cau dyfroedd mordwyol Afon Wysg ac Afon Ebwy dros dro yn ystod cyfnod gosod yn eu lle rannau o ddeciau pontydd y strwythurau arfaethedig dros y dyfroedd mordwyol a enwyd.

3. During the construction of the bridges authorised to be constructed pursuant to article 6 of the Main Scheme, the temporary closure of the navigable waters of River Usk and the River Ebbw will be required during the placing in position of the sections of the bridge decks of the proposed structures over the said navigable waters.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Dyddiedig: 201-

Dated: 201-

NINA LEY
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

NINA LEY
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

(1) 1980 p.66.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1980 c.66.

(2) By virtue of S. I. 1999/672 article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNLLUN (ATODOL) TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) 201-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Cynllun o dan adrannau 16, 17, 19 a 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980 sy'n atodol i Gynllun arfaethedig Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-Bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201- ("y Prif Gynllun").

Byddai'r Cynllun hwn yn awdurdodi cyfyngu hawliau mordwyo dros dro yn ystod cyfnod adeiladu pontydd dros ddyfroedd mordwyol yr Afon Wysg ac Afon Ebwy fel rhan o ffordd arbennig yr awdurdodwyd ei hadeiladu yn unol ag erthygl 6 o'r Prif Gynllun.

Bydd copi o'r Cynllun drafft a'r Prif Gynllun ar gael i'w harchwilio yn ddi-dâl ar bob adeg resymol o 5 Medi 2016 hyd at 18 Hydref 2016, yn y manau a ganlyn:

THE HIGHWAYS ACT 1980

THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23 (EAST OF MAGOR) TO WEST OF JUNCTION 29 (CASTLETON) AND CONNECTING ROADS) AND THE M48 MOTORWAY (JUNCTION 23 (EAST OF MAGOR) CONNECTING ROAD) (SUPPLEMENTARY) SCHEME 201-

The Welsh Ministers propose to make a Scheme under sections 16, 17, 19 and 106 of the Highways Act 1980 which supplements the proposed M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and The M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) Scheme 201- ("the Main Scheme").

This Scheme would authorise the temporary restriction of navigation rights during construction of bridges over the navigable waters of the River Usk and the River Ebbw as part of a special road as authorised to be constructed pursuant to article 6 of the Main Scheme.

Copies of the draft Scheme and Main Scheme may be inspected free of charge at all reasonable hours from 5 September 2016 until 18 October 2016, at the

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA

Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru1, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG

Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Rd, Casnewydd. NP20 4UR

Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square, Casnewydd. NP20 1PA

Ciaiff UNRHYW BERSON wrthwynebu gwneud y Cynllun drwy hysbysu'r Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 18 Hydref 2016 fan bellaf, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1174612 a chan ddatgan sail y gwrthwynebiad. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu neu gefnogi, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac fe all y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir inni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Er hynny, ni fyddwn yn datgelu'ch manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Cynllun Traffyrdd neu Gynllun Cefnffyrdd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd

Gellir gweld copi o'r Cynllun drafft a'r Hysbysiad yn <http://llyw.cymru> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Llinell Deddf Priffyrdd').

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

following venues:

Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Monmouthshire County Council, County Hall, Rhadyr, Usk, Monmouthshire. NP15 1GA

Monmouthshire County Council, Innovation House, Wales1 Business Park, Magor, Monmouthshire. NP26 3DG

Newport City Council, Civic Centre, Godfrey Rd, Newport. NP20 4UR

Newport Central Library, John Frost Square, Newport. NP20 1PA

ANY PERSON may not later than 18 October 2016 object to the making of the Scheme by notice to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference qA1174612 and stating the grounds of objection. **Please note:** Should you wish to object or support, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a Motorway Scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library and is publicly available.

A copy of the draft Scheme and Notice can be viewed at www.gov.wales (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Local Statutory Instruments', 'Highways Act Line Orders').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



M D BURNELL
Transport
Welsh Government

**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD
AMGYLCHEDDOL**

GWEINIDOGION CYMRU

**CYNLLUN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD
23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R
GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A
FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR
M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A
CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL –
ATODIAD I'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL**

**HYSBYSIAD AM ATODIAD I'R DATGANIAD
AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B
O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I
DIWYGIWYD)**

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi prosiect ar waith i adeiladu adran newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd, gan gynnwys gwaith ar-lein ac all-lein a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl. Mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2011/92/EU y GE. Gan hynny, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Ddatganiad Amgylcheddol (DA) ar 10 Mawrth 2016.

Yn dilyn cyhoeddi'r DA, mae Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (ADA) wedi ei lunio a fydd, yn gryno, yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- mân gywiriadau ac egluro rhai agweddau amgylcheddol o'r Cynllun a gyhoeddwyd yn well;
- yn darparu gwybodaeth a/neu ddata newydd; ac
- yn darparu asesiad amgylcheddol o'r newidiadau i'r dyluniad sy'n ei gwneud yn ofynnol cael Gorchymyn drafft atodol neu ddiwygio Gorchymyn drafft presennol yn sylweddol

Bydd yr ADA hwn yn cael ei gyhoeddi ar 5 Medi 2016 a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r DA a'r Crynodeb Annhechnegol a gyhoeddwyd, sy'n parhau i fod yn ddilys.

Gellir edrych ar gopiau o'r ADA am ddim ar bob adeg rhesymol yn ystod y cyfnod gwneud sylwadau yn y manau a ganlyn:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

**NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL
STATEMENT**

THE WELSH MINISTERS

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23 (EAST
OF MAGOR) TO WEST OF JUNCTION 29
(CASTLETON) AND CONNECTING ROADS)
AND THE M48 MOTORWAY (JUNCTION 23
(EAST OF MAGOR) CONNECTING ROAD)
AND THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK
ROAD (EAST OF MAGOR TO CASTLETON)
SCHEME**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT –
ENVIRONMENTAL STATEMENT
SUPPLEMENT**

**NOTICE OF ENVIRONMENTAL STATEMENT
SUPPLEMENT IN ACCORDANCE WITH
SECTION 105B OF THE HIGHWAYS ACT 1980
(AS AMENDED)**

The Welsh Ministers are considering implementing a project for the construction of a new section of M4 motorway to the south of Newport to include online and off line works and side road improvements. This project is subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended) and EC Directive 2011/92/EU. Therefore the Welsh Ministers published an Environmental Statement (ES) on 10 March 2016.

Following publication of the ES, an Environmental Statement Supplement (ESS) has been prepared which in summary:

- makes minor corrections and gives greater clarity to some environmental aspects of the published Scheme;
- provides new information and/or data; and
- provides an environmental assessment of design changes requiring supplementary draft Order or a significant modification to an existing draft Order

This ESS will be published on 5 September 2016 and should be read in conjunction with the published ES and Non-Technical Summary, which remain valid.

Copies of the ESS may be inspected free of charge during all reasonable business hours during the comment period at the following premises:

Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga,
Sir Fynwy. NP15 1GA
Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Wales1,
Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG

Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Heol
Godfrey, Casnewydd. NP20 4UR

Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square,
Casnewydd. NP20 1PA

Gellir prynu copïau electronig o'r Datganiad
Amgylcheddol (ar DVD) o gyfeiriad Llywodraeth
Cymru uchod am £12 (gan gynnwys pecynnu a
phostio). Gellir hefyd gael copïau papur o'r cyfeiriad
uchod, er y bydd cost weinyddol i dalu'r gost o gopïo
(pris ar gais).

Mae copi electronig o'r ADA wedi ei gyhoeddi ar-lein
yn www.llyw.cymru/trafnidiaeth.

Dylai unrhyw sylwadau am yr ADA gael eu gwneud
mewn ysgrifen i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ym
Mharc Cathays a roddir uchod a dylent gyrraedd erbyn
18 Hydref 2016 fan bellaf.

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob sylw
ysgrifenedig cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r
prosiect ai peidio a hynny gydag addasiadau neu
hebdynt.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

Monmouthshire County Council, County Hall,
Rhadyr, Usk, Monmouthshire. NP15 1GA
Monmouthshire County Council, Innovation House,
Wales1 Business Park, Magor, Monmouthshire. NP26
3DG

Newport City Council, Civic Centre, Godfrey Rd,
Newport. NP20 4UR

Newport Central Library, John Frost Square,
Newport. NP20 1PA

Electronic copies of the Environmental Statement (on
DVD) can be purchased from the above Welsh
Government address at a cost of £12 (including
postage and packaging). Paper copies are also
available from the above address, although an
administrative charge will be made to cover the cost
of copying (price on application).

An electronic copy of the the ESS is published on-line
at www.gov.wales/transport.

Any comments about the ESS should be made in
writing to the Welsh Government at the Cathays Park
address given above and should arrive no later than 18
October 2016.

The Welsh Ministers will take all written comments
into consideration before deciding whether or not to
proceed with the project with or without
modifications.

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**



M D BURNELL
Transport
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers